

O'r ymylon i'r canol: ailystyried taith gerddorol Grace Williams

Elain Jones

Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau, Prifysgol Bangor

Cyflwynwyd: 25 Ebrill 2024; Derbyniwyd: 31 Gorffennaf 2024

Crynodeb: Mae'r erthygl hon yn trafod dwy agwedd ar allbwn Grace Williams (1906–1977) sydd wedi eu hesgeuluso o'r llyfryddiaeth gyfredol amdani, sef ei threfniannau lleisiol o alawon gwerin Cymreig a'i hunig opera, 'The Parlour'. Gan gofio mai â cherddoriaeth gerddorfaol y cysylltir Grace Williams yn bennaf, mae'r gwaith yn adlewyrchu'r awydd i ymchwilio a rhoi sylw haeddiannol i'r gweithiau a anwybyddwyd yn y gorffennol. Pwysleisir yr angen i ailystyried arwyddocâd y trefniannau gwerin a'r opera er mwyn cael darlun cyflawn o allbwn y gyfansoddwraig. Sail y darganfyddiadau yw gwaith ymchwil a gyflwynwyd eisioes fel gradd MAREs (MA trwy ymchwil) (Prifysgol Bangor 2022) ac ymchwil gyfredol ar gyfer gradd ddoethur sydd i'w chwblhau yn y blynyddoedd nesaf.

Allweddeiriau: Grace Williams, The Parlour, trefniannau gwerin, cerddoriaeth Cymru, cyfansoddwyr o Gymru, gweithiau anghofiedig, cofiant cerddorol.

From the periphery to the centre: re-evaluating Grace Williams' musical journey

Summary: This article discusses two aspects of Grace Williams' (1906–1977) output that have been neglected in the current bibliography about the composer, which are her vocal arrangements of Welsh folk tunes and her only opera, 'The Parlour'. Bearing in mind that Grace Williams is mainly associated with orchestral music, this research reflects the desire to investigate and give deserving attention to the works that have been ignored in the past. The need to reconsider the significance of her folk-song arrangements and the opera is emphasized with the aim of getting a complete picture of the composer's output. The discoveries are based on recent research that has already been presented as a MAREs degree (Bangor University 2022) and current research for a doctoral degree that is to be completed in the coming years.

Key words: Grace Williams, The Parlour, folk-song arrangements, Welsh music, composers of Wales, neglected works, musical biography.

‘I’ve always considered myself very fortunate to have been born Welsh’
(Grace Williams)¹



Ffigur 1: Grace Williams
(defnyddiwyd gyda chaniatâd y teulu)

¹ Rees, A. J. Heward, a Williams, Grace (1976–7), ‘Views and Revisions’, *Welsh Music*, 4, Winter, 18.

Cefndir

Erbyn heddiw, adwaenir Grace Williams (1906–77) fel un o'r ffigyrau amlycaf a mwyaf dylanwadol yn hanes cerddoriaeth Cymru yn ystod yr ugeinfed ganrif. Er hyn, cred rhai na chafodd llawer o'i chyfansoddiadau sylw haeddiannol yn ystod ei hoes. Gan gyfeirio at gerddoriaeth Grace Williams ynghyd ag Elizabeth Maconchy (1907–94) ac Elisabeth Lutyens (1906–83), dywed Rhiannon Mathias: '*Although Lutyens, Maconchy and Williams each made a significant contribution to British music, their music was often misunderstood in their own lifetimes, and continues to suffer from neglect to this day.*'² Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, aeth rhai ymchwilwyr ati i geisio taflu goleuni ar wahanol rannau o'i hallbwn fel cyfansoddwraig, ond siom o'r mwyaf yw'r ffaith na chafodd Grace Williams fyw i weld llawer o'i gweithiau yn cael eu recordio, eu cyhoeddi na'u darlledu.

Cofir am Williams yn bennaf am ei gweithiau cerddorfaol, megis *Fantasia on Welsh Nursery Tunes* (1940), *Sea Sketches* (1944) a *Penillion* (1955). Y tu hwnt i'r gweithiau cyfarwydd hyn, nid yw'n wybyddus i bawb ei bod wedi treulio llawer o'i hamser yn ymddiddori mewn alawon traddodiadol Cymreig, gan iddi lunio nifer sylweddol o drefniannau gwreiddiol a safonol yn ystod ei gyrfa. Yn ogystal â bod y gyfansoddwraig gyntaf o Brydain i gyfansoddi sgôr ar gyfer ffilm lawn, sef *Blue Scar* (1949),³ mae'n werth nodi hefyd mai Grace Williams oedd y gyfansoddwraig gyntaf yng Nghymru i gyfansoddi opera. Y sbardun pennaf ar gyfer ymchwilio i'r gweithiau hyn oedd y sylweddoliad nad oeddent wedi cael eu hastudio mewn manylder gan ymchwilwyr o'r blaen, ac i bob pwrpas cawsant eu hesgeuluso drwy eu hepgor o'r llyfryddiaeth gyfredol sy'n bodoli am Grace Williams.

Bwriad yr erthygl hon yw trafod dau begwn allbwn Grace Williams fel cyfansoddwraig (sydd ar yr wyneb yn begynau cyferbyniol o safbwynt swyddogaeth y gerddoriaeth), sef ei threfniannau o alawon gwerin Cymreig a'i hunig opera, 'The Parlour' (1966). Ceir ymgais felly i lenwi rhywfaint ar y bwlch sy'n bodoli am fywyd a gwaith y gyfansoddwraig yn absenoldeb ymdriniaeth â'r gweithiau hyn. Mae'r ddau begwn yn dyst i ba mor eang oedd diddordeb Grace Williams mewn cerddoriaeth, wrth iddi ymddiddori mewn alawon traddodiadol sy'n cyferbynnu'n llwyr â chyfrwng yr opera. Wrth ymchwilio i'r gweithiau hyn, y bwriad yw ceisio dod i ddeall cymeriad diddorol a phersonoliaeth angerddol y gyfansoddwraig yn well. Ceir ymgais i drafod ei hunaniaeth, gan ystyried ei chylchoedd cymdeithasol a'r hyn a'i siapiodd. Gellir deall unigrwydd a bywyd cymharol ynysig Grace Williams fel rhywbeth a ddisgrifir gan y seicolegydd Erikson fel 'argyfwng hunaniaeth',⁴ a drafodir yn nes ymlaen yn yr erthygl.

² Mathias, Rhiannon (2012), *Lutyens, Maconchy, Williams and Twentieth-Century British Music* (Surrey: Ashgate Publishing Limited), t. 6.

³ Jones, Nicholas (2022), 'Composing Cymru: Art Music since 1940', yn Herbert, Trevor, Clarke, Martin V., a Barlow, Helen (goln), *A History of Welsh Music* (Cambridge: Cambridge University Press), t. 268.

⁴ Beard, David, a Gloag, Kenneth (2016), *Musicology: the Key Concepts* (London and New York: Taylor and Francis Group), t. 133.

Grace Williams a'r traddodiad gwerin

Cyflwynwyd Grace Williams i'r traddodiad gwerin yn gynnar yn ei hoes o ganlyniad i ddylanwad ei thad, W. M. Williams, a'i gariad tuag at ddiwylliant cerddorol Cymraeg a Chymreig. Magwyd W. M. Williams yng Nghaernarfon ac mae'n bur debyg y byddai'n gyfarwydd iawn â'r diwylliant Cymreig.⁵ Roedd alawon traddodiadol o Gymru, ynghyd â cherddoriaeth o Ewrop a'r cyfandir, yn rhan werthfawr o fagwraeth Grace Williams. Mae'n wir bod y traddodiad canu gwerin yn fyw ymhlith aelodau'r teulu a'r cartref, fel y soniodd y gyfansoddwraig yn 1960:

When, eventually, their [Welsh Folk Song Society] collections were published my father fell for them hook, line and sinker; and it was very annoying, because if I happened to be trilling my way through the *Jewel Song* from [Gounod's opera] *Faust* he would cut in and ask me to transfer my talents to *Gweni aeth i Ffair Pwllheli*.⁶

Dangosai W. M. Williams gryn ddiddordeb yn narganfyddiadau'r casglwyr alawon gwerin ar droad y ganrif, felly nid yw'n syndod bod ei frwdfrydedd a'i ddiddordeb yn y maes wedi'u hetifeddu gan ei ferch.

Bu i'w chysylltiad â cherddoriaeth draddodiadol barhau wrth astudio yn y Royal College of Music yn Llundain hefyd, gan i'w hathro, Ralph Vaughan Williams (1872–1958) (a oedd hefyd yn ymddiddori mewn alawon traddodiadol ledled Prydain) ei hysgogi i ddefnyddio alawon gwerin Cymraeg a Chymreig yn ystod ei gyrfa. Ceir enghraifft o Vaughan Williams yn annog ei ddisgybl mewn ffordd gynnil i archwilio alawon traddodiadol Cymru mewn gohebiaeth rhwng y ddau flynyddoedd ar ôl i Grace Williams adael y Coleg: '*Also how about the Welsh Folksongs – I sometime feel I don't do [half] enough pushing on behalf of my pupils – but as you know I am no pusher*'.⁷ Derbyniodd anogaeth i drefnu alawon gwerin ei gwlad yn sgil ei chyfeillgarwch â'r cyfansoddwr Benjamin Britten (1913–76) yn ogystal. Wrth sôn am drefniannau gwerin Grace Williams, dywedodd Britten: '*I was thrilled with the folk-song arrangements – they are by far the best arrangements of any folk-songs I know. We must get someone to print them*'.⁸ Byddai derbyn anogaeth o'r fath gan gyfansoddwr uchel ei barch wedi bod yn hwb mawr i'r gyfansoddwraig. Mae'n debyg bod Grace Williams wedi sylweddoli'r angen i roi bywyd newydd i'r hen alawon traddodiadol, a chanlyniad hyn oedd dros gant o drefniannau gwreiddiol a oedd yn llawn dychymyg a chreadigrwydd o'u cymharu â threfniannau a oedd eisoes yn bodoli.

⁵ Parry, Enid (1977), 'Atgofion am Grace Williams', *Cerddoriaeth Cymru*, 5 (6), haf, 7. Galwyd ei thad yn Wili Williams Gwalia gan drigolion Caernarfon.

⁶ Williams, Grace (1987), 'A Self Portrait', *Cerddoriaeth Cymru*, 8 (5), gwanwyn, 7–8.

⁷ Llythyr oddi wrth Vaughan Williams at Grace Williams (dim dyddiad), Llythyrau Vaughan Williams (1934) (Rhif VWL3869), 'The Letters of Vaughan Williams', <[http://vaughanwilliams.uk/search/node/grace%20williams Ralph Vaughan Williams](http://vaughanwilliams.uk/search/node/grace%20williams%20Ralph%20Vaughan%20Williams)> [cyrchwyd: 12 Ionawr 2021].

⁸ Llythyr oddi wrth Benjamin Britten at Grace Williams, 25 Medi 1934, llythyrau Vaughan Williams (1934) (Rhif VWL3869), Britten-Pears Archive, Aldeburgh – Casgliad Grace Williams (Rhif 9103412).

Er bod rhai trefniannau o alawon gwerin Cymreig gan Grace Williams yn dyddio o'r 1930au, er enghraifft *Six Welsh Oxen Songs* (1937), daeth y trefniannau'n fwy niferus yn ystod y 1940au pan dderbyniodd swydd lawnamser yn Adran Ysgolion y BBC.⁹

8

mf

3. Calf is run-ning home-ward all a-lone, John-ny tries to find him,
3. Llo yn rhe-deg ad-ref heb ei fam, Min-nau'n mynd i'r hôl e'g

mp

hears him moan. gam i gam. Hie a-way!..... Hie a-way!.....
gam i gam. Hic..... 'mlân! Hic..... 'mlân!

pp

Hwl
Hwl

mp

4. Calf is now a-limp-ing, John-ny, too, a crock, Mare be-gins to laugh, and
4. Llo yn pall-u dw-ad, min-nau'n grae, Hwyl-aid bach yn chwerthin

p

mp


Six Welsh Oxen Songs H. 14740

Enghraifft 1: *Brecon*, ail symudiad *Six Welsh Oxen Songs* (barrau 25–37).

⁹ Williams, Grace (1937), *Six Welsh Oxen Songs* (London: Boosey & Hawkes). Am restr gyflawn o'r alawon traddodiadol a drefnwyd gan Grace Williams, gweler Jones, Elain, 'The Tune is the Nation's: Astudiaeth o Drefniannau Alawon Gwerin Cymreig Grace Williams', Traethawd MAREs, Prifysgol Bangor, Bangor, 2022.

Yn dilyn cyfnod o fyw a gweithio yn Llundain, gorfodwyd iddi ddychwelyd i'r Barri yn 1947 oherwydd salwch, lle y sefydlodd ei hun fel cerddor llawrydd. Roedd ei gwaith bryd hynny'n cynnwys cyfansoddi ar gyfer gweithiau comisiwn, ysgrifennu sgriptiau ar gyfer y BBC, trefnu alawon gwerin ar gyfer Adran Ysgolion y BBC, cyfansoddi cerddoriaeth yn achlysurol ar gyfer y radio, teledu a ffilm, gwaith copïo cerddoriaeth a gwaith dysgu achlysurol yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd. Roedd gweddill y degawd a'r 1950au yn gyfnod cynhyrchol iddi fel trefnydd alawon gwerin ac roedd yn mwynhau ysgrifennu sgriptiau i gyd-fynd â'r trefniannau ar gyfer darllediadau radio, fel y dywedodd mewn llythyr at ei chyfaill, y cerddor Enid Parry yn 1957:

Now I'm going to relax [and] enjoy writing six *Cerddi Cymru* scripts for *Welsh Children's Hour*.¹⁰



Enghraifft 2: Graff yn dangos dyddiadau cyfansoddi trefniannau Grace Williams o alawon traddodiadol

Er darganfod cynifer â 115 o drefniannau o alawon gwerin Cymreig gan Grace Williams, nid ydynt wedi derbyn sylw teilwng gan ymchwilwyr hyd yn ddiweddar. Un rheswm posibl dros hyn yw'r ffaith bod cynifer â thri chwarter o'r holl drefniannau yn anghyhoeddedig.¹¹ Mewn cyhoeddiadau pwysig a dadlennol am fywyd a gwaith y gyfansoddwraig, megis y

¹⁰ Llythyr oddi wrth Grace Williams at Enid Parry, 10 Hydref 1957, papurau Enid Parry (heb eu catalogio), Archifdy Prifysgol Bangor.

¹¹ Jones, Elain, 'The Tune is the Nation's: Astudiaeth o Drefniannau Alawon Gwerin Cymreig Grace Williams', Traethawd MAREs, Prifysgol Bangor, Bangor, 2022.

monograff a luniwyd gan Malcolm Boyd yn 1980,¹² ni cheir trafodaeth am y nifer fawr o alawon traddodiadol a drefnwyd ganddi na chyfeiriad atynt. Mae'r diffyg cydnabyddiaeth o fodolaeth y trefniannau hyn yn llyfr Boyd ac mewn cyhoeddiadau eraill am waith y gyfansoddwraig yn creu'r camargraff nad oedd ganddi lawer o amser ar gyfer cerddoriaeth draddodiadol ei gwlad. Pe byddai awduron megis Boyd wedi darllen mwy o lythyrau Grace Williams, efallai y byddai llai o bwyslais wedi cael ei roi ar y gweithiau 'mawr' ar gyfer y neuadd gyngerdd (megis *Penillion a Sea Sketches*), a mwy o bwyslais ar y gerddoriaeth fwy ymarferol ei natur, megis y nifer fawr o drefniannau o alawon traddodiadol a gynhyrchwyd ganddi. Dyma gorff o waith sy'n gweddu â'r disgrifiad o'r gair Almaeneg *Gebrauchsmusik*, sef term a ddaeth yn bwysig yn ystod yr 1920au a'r 1930au yng ngwaith cyfansoddwyr megis Paul Hindemith (1895–1963), a hynny pan oedd Grace Williams yn dechrau darganfod ei llais fel cyfansoddwraig. Cerddoriaeth at ddibenion 'bob dydd' oedd *Gebrauchsmusik* – cerddoriaeth ag iddi amcanion clir a phendant – a gellir dadlau o ganlyniad i hyn nad oedd y gerddoriaeth yn derbyn yr un sylw â'r gweithiau cerddorfaol.¹³

Mae'r trefniannau o alawon gwerin Cymreig gan Grace Williams yn arwyddocaol oherwydd maent yn cynnig gwedd newydd ar bersonoliaeth gerddorol y gyfansoddwraig, yn ogystal â bod yn garreg filltir bwysig yn ei thaith gerddorol. Maent yn arddangos y gyfansoddwraig ymarferol ac yn pwysleisio ei gallu i addasu i anghenion ei phroffesiwn fel cyfansoddwraig, ynghyd â rhoi darlun o'r Grace Williams hygyrch a Chymreig. Ond, roedd elfen arall i'w hallbwn fel cyfansoddwraig sy'n cynnig gwedd newydd a gwahanol: Grace Williams y theatr a'r opera.

Grace Williams a chyfrwng yr opera

Cafodd Grace Williams fagwraeth gerddorol 'gyflawn', un a oedd yn anarferol o freintiedig yn ôl Rhiannon Mathias,¹⁴ gyda cherddoriaeth o bob math yn llenwi'r cartref. Fel y dywedodd ei hun: '*At home we had operatic duets, The Prima Donna's Album, Tchaikovsky's songs, lots of oratorios, stacks of Chopin, Beethoven and Bach.*'¹⁵ Wrth drafod ei phlentyndod â'r hanesydd cerdd A. J. Heward Rees, cyfeiriodd Grace Williams at y ffaith ei bod yn mwynhau mynd i weld nifer o operâu pan oedd yn blentyn: '*as a child I went to a great deal of plays, and to hear the opera-companies who used to come to Cardiff; as a family we used to go regularly to the Saturday matinees. I always loved the theatre: I belong [there] somehow.*'¹⁶

Gellir olrhain diddordeb y gyfansoddwraig yng nghyfrwng yr opera i oedran ifanc iawn, ac mae'n glir bod ganddi gariad neilltuol at y *genre*. Trosglwyddodd ei diddordeb yn y

¹² Boyd, Malcolm (1980), *Grace Williams* (Cardiff: University of Wales Press). Ceir atodiad yn y gyfrol sy'n cynnwys rhestr o'r trefniannau gwerin, fodd bynnag.

¹³ Am ragor ynglŷn â'r syniad hwn, gweler Hindemith, Paul (1953), *A Composer's World, Horizons and Limitations* (Cambridge: Harvard University Press).

¹⁴ Mathias, Rhiannon (2016), 'Grace Williams (1906–77) and Music in Twentieth-Century Wales', darlith yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1 Mehefin. Cedwir y fideo yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

¹⁵ Rees, A. J. Heward, a Williams, Grace (1976–7), 'Views and Revisions', *Welsh Music*, 4, Winter, 10.

¹⁶ *Ibid.*, 13.

Andante espressivo Cariad Cyntaf (Welsh words Traditional)

Bass *Piano*

mp Mae pryd-fertth-wch — ail — i

mp *accelerando*

Ea-en, — Yndy fyn-wes gyn-nes, fein-wen, Twyn ga-riad-us liw-us

law-en, — Se-ren syw, — chyw di'r claf.

Enghraifft 3: 'Cariad Cyntaf'

cyfrwng i ddisgyblion yn y Camden School for Girls, lle y bu'n dysgu rhwng 1932 a 1946, wrth iddi addasu rhai o operâu Gilbert and Sullivan ar gyfer perfformiadau gan fyfyrwyr. Mater o syndod felly, o gofio pa mor helaeth oedd ei diddordeb, yw'r ffaith mai un opera yn unig a gwblhawyd ganddi. Er hyn, efallai nad yw'n gwbl annisgwyl o ystyried cyn lleied o operâu Cymreig oedd yn cael eu comisiynu yng Nghymru yn ystod y cyfnod dan sylw. Ni chafwyd opera lawn gan gyfansoddwr o Gymru ar ôl 'The Parlour' hyd nes y cyfansoddodd Alun Hoddinott ei opera gyntaf, *The Beach of Falesá*, yn 1974.¹⁷

Ystyriodd Grace Williams gyfansoddi opera yn seiliedig ar hanes Twm o'r Nant (Thomas Edwards) neu Dic Penderyn (Richard Lewis) rai blynyddoedd cyn cyfansoddi 'The Parlour',¹⁸ ond ni lwyddodd i dderbyn cefnogaeth ariannol i wireddu'r syniadau hyn. Flynyddoedd yn ddiweddarach, derbyniodd gomisiwn gan Bwyllgor Cymreig Cyngor Celfyddydau Prydain (fel y'i galwyd ar y pryd) yn 1959 i gyfansoddi ei hunig opera. Y bwriad gwreiddiol oedd llwyfannu dwy opera newydd mewn un noson (h.y., *double bill*) gan Grace Williams a Daniel Jones (1912–93) i'w perfformio gan Opera Cenedlaethol Cymru (WNO). Er i'r comisiynau gael eu cyflawni, ni pherfformiwyd yr operâu yn y modd hwn. Cafodd opera Daniel Jones, *The Knife*, ei chwblhau yn 1961 a'i pherfformio yn Sadler's Wells, Llundain, ym mis Rhagfyr 1963, ond bu'n rhaid i opera Grace Williams ddisgwyl hyd nes mis Mai 1966 i gael ei pherfformio am y tro cyntaf.

Nid oes unrhyw beth 'Cymreig' yn perthyn i 'The Parlour', ar yr wyneb beth bynnag. Efallai fod Grace Williams wedi penderfynu osgoi creu unrhyw gysylltiad Cymreig oherwydd bod gan y WNO ddwy opera Gymreig yn ei *repertoire* eisoes, a'r ddwy gan Arwel Hughes, sef *Serch yw'r Doctor* a *Menna*, gyda *libreto* y naill opera a'r llall wedi'i ysgrifennu gan Saunders Lewis a Wyn Griffith, yn y drefn honno. Trodd Grace Williams at waith y nofelydd a'r dychanwr Ffrengig Guy de Maupassant (1850–93) ar gyfer testun 'The Parlour', gan ddefnyddio ei stori fer 'En Famille' fel sail ar gyfer ysgrifennu ei *libreto* ei hun ar gyfer yr opera. Yn un o'i sgysiau radio a gyhoeddwyd fel sgript yn y gyfrol *Welsh Music*, dywed y gyfansoddwraig ei bod wedi ei denu'n syth at 'En Famille', er ei bod yn cadw mewn cof fod cyfansoddwr arall, Benjamin Britten, wedi dewis un o nofelau byrion Maupassant, *Le Rosier de Madame Husson* (1887), ar gyfer ei opera, *Albert Herring* (1947).¹⁹

Perfformiwyd 'The Parlour' am y tro cyntaf ar 5 Mai 1966 yn y Theatr Newydd, Caerdydd, gan y WNO a Cherddorfa Symffoni Dinas Birmingham fel rhan o *double bill* gydag *Il Tabarro* (*The Cloak*) gan Puccini. Cyfeirir at yr achlysur hwn fel uchafbwynt diamheuol y tymor gan Richard Fawkes: '*The undoubted highlight of the Cardiff season that spring was the world première of a new opera, not just by a living composer but by a living Welsh composer*'.²⁰

¹⁷ WNO – Y 1960au, <[WNO – Y 1960au](#) | [WNO](#)> [Cyrchwyd: 28 Medi 2022]

¹⁸ Cotterill, Graeme, 'Music in the Blood and Poetry in the Soul?', traethawd PhD, Prifysgol Bangor, Bangor, 2012, t. 19.

¹⁹ Williams, Grace (1987), "'The Parlour' radio script in 'A Self Portrait'", *Welsh Music*, 8 (5), 9.

²⁰ Fawkes, Richard (1986), *Welsh National Opera* (London: Julia MacRae), t. 107.

121

The musical score is written in G major (one sharp) and 4/4 time. It includes parts for Piccolo, Flute I, Oboe, Clarinet in Bb, Bassoon, Horns, Trumpets, Trombones, Tuba, Timpani, Snare Drum, Bass Drum, and vocal soloists (Louisa, Augusta, Mammy, Papa) and a Shanty group.

Vocal Lyrics:

Louisa: King, All the things that must be done, Where can we be - gin? All the things that must be done, Where can we be - gin? All the things that must be done, Where can we be - gin? All the things that must be done, Where can we be - gin?

Augusta: King, All the things that must be done, Where can we be - gin? All the things that must be done, Where can we be - gin? All the things that must be done, Where can we be - gin? All the things that must be done, Where can we be - gin?

Mammy: King, All the things that must be done, Where can we be - gin? All the things that must be done, Where can we be - gin? All the things that must be done, Where can we be - gin? All the things that must be done, Where can we be - gin?

Papa: King, All the things that must be done, Where can we be - gin? All the things that must be done, Where can we be - gin? All the things that must be done, Where can we be - gin? All the things that must be done, Where can we be - gin?

Shanty: King, All the things that must be done, Where can we be - gin? All the things that must be done, Where can we be - gin? All the things that must be done, Where can we be - gin? All the things that must be done, Where can we be - gin?

GS Ld.1524

Enghraifft 4: Darn o sgôr 'The Parlour'

Ar ôl dau berfformiad yng Nghaerdydd, teithiodd yr opera i ogledd Cymru gyda pherfformiad yn Llandudno ym mis Awst 1966. Dyma'r perfformiad a recordiwyd ar gyfer y BBC Music Programme ac a ddarlledwyd ar donfeddi cenedlaethol ym mis Tachwedd 1966 – a dyma'r unig recordiad o'r opera sydd ar gael heddiw. Llwyfannwyd 'The Parlour' gan y WNO am y tro olaf yng Nghaerdydd ym mis Hydref 1966, ond er y bwriadwyd ei pherfformio yn Abertawe ym mis Mawrth 1967, ni lwyddwyd i wneud hynny gan na werthwyd digon o docynnau.

Gwelir cyferbyniad amlwg yma, felly, o safbwynt swyddogaeth y gerddoriaeth yn y gweithiau dan sylw – mae'r trefniannau o alawon gwerin Cymreig yn weithiau ymarferol ar gyfer cyfrwng y radio yn bennaf, ac mae'r opera yn benllanw datblygiad proffesiynol cyfansoddwr oherwydd ei bod yn gyfanwaith mor uchelgeisiol ar raddfa llawer mwy. Treuliodd Grace Williams chwe blynedd rhwng 1960 a 1966 yn cyfansoddi'r opera, o'i gymharu â chynhyrchu nifer fawr o drefniannau gwerin mewn byr amser ar gyfer rhaglenni radio'r BBC, megis *Rhythm and Melody* a *Children's Hour*. Yn ôl Grace Williams: '*The packing up of Children's Hour has been a sad loss to me – I loved doing those scripts & the pay was excellent*'.²¹

Y gyfansoddwraig amlgyfrwng

Mae cymharu'r meysydd hyn yn allbwn Grace Williams yn fodd i bwysleisio ei hyblygrwydd fel cyfansoddwraig. Mae lle i gredu bod yr hyblygrwydd hwn yn un o'i chryfderau mwyaf, wrth iddi droi ei llaw at sawl cyfrwng gwahanol gan greu cerddoriaeth at wahanol ddibenion. Cyfeiriwyd eisoes at bwrpas ymarferol y trefniannau gwerin (sef cerddoriaeth a grëwyd ar gyfer 'y bobl') ac ar y llaw arall, datblygodd iaith gerddorol unigryw a gwreiddiol yn 'The Parlour'.

Mae lle i gredu bod cyswllt Grace Williams â'r trefniannau gwerin yn ogystal â gweithiau a oedd yn defnyddio alawon traddodiadol (megis y *Fantasia*, er enghraifft) wedi effeithio ar ymateb rhai beirniaid i arwyddocâd ei hopera. Yn ôl Ernest Walker, '*a musician who ... borrows his [sic] material from his native folk-tunes shows himself a plagiarist who is not strong enough to invent material of his own*'.²² Er hyn, efallai na fyddai cyfansoddwyr megis Vaughan Williams a Béla Bartók (1881–1945), nac ychwaith Grace Williams, yn cytuno â'r farn hon. Derbyniodd Grace Williams gryn sylw am ei *Fantasia* a hynny'n weddol fuan yn ei gyrfa (1940au), ac mae'n debyg bod y cyhoedd yn ei chysylltu'n bennaf â cherddoriaeth a ystyriwyd yn 'Gymreig' ac yn cynnwys alawon traddodiadol o Gymru. Mynegodd y gyfansoddwraig rwystredigaeth ynghylch hyn yn 1949, gan ddatgan: '*[l]isteners have got it into their heads that all I can do is folk-song fantasias*'.²³ Roedd Grace Williams yn amlwg

²¹ Llythyr oddi wrth Grace Williams at Elizabeth Maconchy, 7 Rhagfyr 1965. Gweler Doctor, Jenny, a Fuller, Sophie (goln) (2020), *Music, Life and Changing Times: selected correspondence between British composers Elizabeth Maconchy and Grace Williams, 1927–1977*, 1, t. 242.

²² Walker, E. (1966), *A History of Music in England* (Oxford: Clarendon Press), t. 399.

²³ Llythyr oddi wrth Grace Williams at Idris Lewis ([marc post] 2 Rhagfyr 1949), BBC Written Archives Centre, Caversham (WA1/61/4 (Welsh Region\Composers\Williams, Grace\1949– 1953\File 1d).

yn ymwybodol nad oedd y gwaith o drefnu alawon gwerin yn ei diffinio fel cyfansoddwraig ym meddyliau cerddolegwyr megis Walker. Ategwyd hyn mewn llythyr at un o reolwyr y BBC, R. J. F. Howgill, yn 1954, gan iddi ddweud:

I do realise that when people see my name attached to folk song arrangements and fantasias for children it is so easy for them to forget that I also write full scale serious works. If only I had no desire to write seriously I should be a much happier person – but there it is, most of my composing time has been spent on serious works. Perhaps I am wrong in feeling that they mean a good bit more than my lighter things. It's all very difficult.²⁴

Mae'r sylwadau hyn yn peri i rywun amau bod cysylltiad Grace Williams ag alawon traddodiadol Cymru wedi cael cryn effaith ar ei hyder wrth lunio cyfansoddiadau ar raddfa fwy uchelgeisiol, a bod hyn wedi diffinio ei hunaniaeth gerddorol yn ogystal. Roedd yn ymwybodol iawn o farn y cyhoedd a'i chyd-gyfansoddwyr, ac yn ofni y byddai llunio rhagor o drefniannau o alawon gwerin ar draul cyfansoddi gweithiau cyfoes, gwreiddiol, yn cael effaith andwyol ar ei statws fel cyfansoddwraig. A oedd hi felly'n teimlo pwysau i symud oddi wrth y traddodiad Cymreig? Awgrymir hyn yn y ffaith nad oes unrhyw waith gwreiddiol a gyfansoddwyd ganddi ar ôl 1954 yn cynnwys alaw werin Gymreig.²⁵ Yn ôl Boyd, gellir adnabod y blynyddoedd rhwng 1955 a 1971 fel cyfnod 'aeddffed' y gyfansoddwraig, lle y gwelwyd '*a new self-confidence and a stronger sense of identity*'²⁶ wedi iddi ymbellhau oddi wrth yr alawon traddodiadol. Ac eto, beth oedd y synnwyr hwn o hunaniaeth y mae Boyd yn ei adnabod yng nghyfnod aeddffed Grace Williams? I ateb y cwestiwn hwn, mae'n rhaid craffu ymhellach ar y syniad o hunaniaeth gerddorol yn gyffredinol.

Hunaniaeth gerddorol Grace Williams

Gellir dadlau nad oedd hunaniaeth Grace Williams yn beth amlwg a chlir o gymharu â hunaniaeth gerddorol cyfansoddwyr megis J. S. Bach (Almaeneg), Verdi (Eidaleg) neu Elgar (Saesneg). Trafodwyd ei hunaniaeth o safbwynt Cymreictod eisoes gan Malcolm Boyd a Graeme Cotterill, ac mae awduron megis Pwyll ap Siôn²⁷ a Gareth Glyn²⁸ wedi ystyried cenedligrwydd cyfansoddwyr Cymreig yng nghyfrolau *Hanes Cerddoriaeth Cymru* a *Welsh Music*. Ceir ymgais yma i drafod ei hunaniaeth yng ngoleuni nid yn unig ei threfniannau o alawon gwerin, ond yr opera hefyd.

²⁴ Llythyr oddi wrth Grace Williams at Richard John Frederick Howgill, 20 Medi 1954, BBC Written Archives Centre (Caversham) (RCONT1\Grace Williams\Composer\File 1B\1950–1962).

²⁵ Boyd, Malcolm (1980), *Grace Williams, Composers of Wales*, 4 (Cardiff: University of Wales Press), t. 36.

²⁶ Ibid.

²⁷ Siôn, Pwyll ap, 'Cenedligrwydd a'r Cyfansoddwr Cymreig', *Welsh Music History*, 7 (2007), 265–84.

²⁸ Davies, Gareth Glynne, 'Cerddoriaeth Cenedl – dadleuon, achosion, a thipyn bach o hanes', *Welsh Music*, 4 (6) (1974), 60–70.

Mae lle i amau bod Grace Williams yn ffigwr ymylol yng Nghymru, ac o'r herwydd roedd yn rhaid iddi frwydro i'w llais gael ei glywed ar sawl achlysur yn ystod ei gyrfa. Bu iddi orfod gweithio'n galed yn ystod ei hoes i ennyn cefnogaeth gan gyhoeddwy cerddoriaeth er mwyn i'w gwaith weld golau dydd. Roedd hi hefyd yn aml iawn yn gorfod dal ei thir fel cyfansoddwraig wrth ymwneud â'r BBC, a oedd i raddau helaeth yn cael ei reoli gan ddynion megis Mansel Thomas ac Arwel Hughes, er budd cerddorion a chyfansoddwyr gwrywaidd. Mewn llythyr at Elizabeth Maconchy yn 1953, datgelodd ei bod yn ystyried ei bod yng nghysgod cyfansoddwyr gwrywaidd Cymru:

What does make me feel awful is when benefits [and] commissions are bestowed on [an] inferior composer [and] I feel if only I had their chances I could in my small way do better things than they do (Wales – thanks to Mansel [-] has now downgraded me [and] I get nothing except a few broadcasts from Arwel Hughes...[.]) Last week a D.Mus was allowed to broadcast a talk on Welsh composers – [and] referred to the creative genius of Arwel [Hughes] the versatile genius of Mansel [Thomas and] the colossal [*sic*] advent of Daniel [Jones]. I was referred to simply as composer of Fantasia on Welsh Nursery Tunes which he called felicitous, [and] he said my technique was improving.²⁹

Ystyriaeth arall yw bod Grace Williams yn ymylol yn yr ystyr nad oedd hi'n cyd-fynd â'r traddodiad cerddorol amatur a oedd mor gryf yng Nghymru yn ystod yr ugeinfed ganrif, fel yr Eisteddfod Genedlaethol, a thraddodiadau megis cerdd dant. Bu iddi ddatgan yn 1934: '*the Committee [for the 1934 Eisteddfod at Neath] ... have a downer on me*'.³⁰ Er iddi feirniadu cystadleuaeth gyfansoddi yn yr Eisteddfod am y tro cyntaf yn 1946, a derbyn gwahoddiad i wneud hynny eto yn 1952 ac 1958, gwrthododd nifer o gyfleoedd i gyfansoddi gweithiau comisiwn ar gyfer yr Eisteddfod oherwydd amodau talu gwael.³¹ Roedd hi o'r farn nad oedd yr Eisteddfod yn llwyddo i wireddu potensial artistig a bod gan y sefydliad ddiffyg uchelgais i roi cyfleoedd i gyfansoddwyr brodorol ddatblygu eu llais cerddorol: '*I've still got faith in Wales – when it isn't running festivals [and] Eisteddfods. If only we could tear away the veil of smugness – what's underneath has such potentialities*'.³² Nid oedd Grace Williams yn fodlon â'r hyn yr oedd Eisteddfod yr Urdd yn ei gyflawni o safbwynt cerddoriaeth chwaith, gan iddi ddatgan mewn llythyr at Enid Parry yn 1957:

²⁹ Llythyr oddi wrth Grace Williams at Elizabeth Maconchy, dim dyddiad penodol [ar ôl 29 Gorffennaf] 1953, Gweler, Doctor, Jenny, a Fuller, Sophie (goln) (2020), *Music, Life and Changing Times: selected correspondence between British composers Elizabeth Maconchy and Grace Williams, 1927–77*, 1 (London: Routledge Press), t. 149.

³⁰ Llythyr oddi wrth Grace Williams at Sam Jones, Gorffennaf 1934 (BBC WAC, A).

³¹ Cotterill, Graeme, 'Music in the Blood and Poetry in the Soul?', Traethawd PhD, Prifysgol Bangor, Bangor, 2012, tt. 10–11.

³² Llythyr oddi wrth Grace Williams at Daniel Jones, 14 Ebrill 1950 (NLW, Daniel Jones Archive, AA1416).

Really I don't know where I am in connection with youth singing in Wales ... if only Eisteddfodau would ban those awful vocal mannerisms which one hears only in Eisteddfodau. They have won too many prizes in the past[,] that's the trouble ... Choose good music, Enid, whenever you get the chance – it's bound to inspire them in the end. School cupboards all over Wales are crammed with Novello's drivel (+ distortions of the classics.) + what Welsh works there are are 90% bad. Your Translations (like the Bach) are a godsend to the Urdd when the music is beautiful.³³

Efallai fod lle i gredu i'w diffyg gallu i siarad Cymraeg fod yn rhwystr i Grace Williams wrth sefydlu ei hun fel cyfansoddwraig yng Nghymru ac wrth geisio ennyn cefnogaeth gan gyhoeddwr, er enghraifft Cwmni Cyhoeddi Gwynn (Llangollen). Dywedodd mewn llythyr at Enid Parry: '*As for getting me to talk in Welsh, I'll never have the courage*'.³⁴ Er hyn, roedd Enid Parry o'r farn nad oedd y ffaith ei bod yn gyfansoddwraig ddi-Gymraeg wedi effeithio ar ei gwaith, gan iddi ddweud: 'Yr oedd ganddi fwy o gydymdeimlad â'r bardd na llawer o gyfansoddwr, ac yr oedd ei pharch tuag at farddoniaeth a geiriau ym mhob iaith yn beth amheuthun'.³⁵

Ni ddylid edrych ar y ffaith bod Grace Williams yn ymylol fel rhywbeth negyddol yn unig. Mae'n werth ystyried ei bod wedi gwneud y penderfyniad i fod yn ymylol am nad oedd hi'n cael ei deall yn llawn yn ei chynefin ei hun ac oherwydd ei bod yn teimlo'n rhwystredig â'r sefydliadau cerddorol a oedd yn ei hamgylchynu.

Cylch Cymdeithasol Grace Williams

Wrth ystyried hunaniaeth Grace Williams, addas fyddai trafod ei chylch cymdeithasol ac ystyried i bwy ac at beth yr oedd hi'n perthyn. Yn ôl Beard a Gloag, mae gan hunaniaeth fel cysyniad wreiddiau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys athroniaeth, seicoleg ac astudiaethau diwylliannol. Gan gyfeirio at syniadaeth Durkheim, dywed Beard a Gloag fod yr unigolyn yn gynnyrch o'r gymdeithas y mae ef neu hi yn rhan ohoni. Â Marx gam ymhellach gan ddatgan bod hunaniaeth gymdeithasol yn gynnyrch o'r gyfundrefn economaidd y mae'r unigolyn yn rhan ohoni, tra bod George Herbert Mead yn dadlau bod hunaniaeth yn ganlyniad i gysylltiad â chydymdreiddiad pobl â'i gilydd. Aeth Mead ati i ddiffinio hunaniaeth fel ymwybyddiaeth a hunanymwybyddiaeth (h.y. *consciousness* a *self-consciousness*), ac yn ôl y seicolegydd Erikson, '*if an individual breaks with the community, it can lead to an identity crisis*'.³⁶

³³ Llythyr oddi wrth Grace Williams at Enid Parry (1 Mawrth 1957), Papurau Enid Parry (heb eu catalogio), Archifdy Prifysgol Bangor.

³⁴ Parry, Enid (1977), 'Atgofion am Grace Williams', *Cerddoriaeth Cymru*, 5 (6), haf, 13.

³⁵ Ibid.

³⁶ Beard, David, a Gloag, Kenneth (2016), *Musicology: The Key Concepts* (London and New York: Taylor and Francis Group), tt. 133–5.

Mae cysylltu Grace Williams â chylch cerddorol penodol yn heriol gan ei bod, fel menyw, yn y lleiafrif ymhlith cyfansoddwyr Cymreig y cyfnod. Mae'r ffaith iddi gael ei magu yn y Barri, yn ogystal â'i phenderfyniad i ddychwelyd yno i fyw a gweithio, hefyd yn ei gwneud yn 'ymylol' am ei bod yn byw y tu hwnt i fwrlwm cerddorol Caerdydd a Llundain. Yn ei chyhoeddiadau, grwpiodd Rhiannon Mathias ei gwaith â gwaith Elizabeth Maconchy ac Elisabeth Lutyens, sef dwy gyd-fyfyrraig i Grace Williams yn y Royal College of Music. Er mor addas yw trafod y tair gyda'i gilydd oherwydd tebygrwydd eu hamgylchiadau (wrth iddynt geisio ennill eu tir fel cyfansoddwragedd mewn cyfnod pan oedd hynny'n beth newydd ym Mhrydain ar ddechrau'r ugeinfed ganrif), mae'n anodd dwyn cymariaethau rhwng gyrfaoedd hirdymor y tair cyfansoddwraig.

O safbwynt sefydliadau cerddorol yng Nghymru, mae lle i gredu bod amharodrwydd Grace Williams i ddangos ei chefnogaeth trwy gyfrannu at bwyllgorau wedi cyfyngu ei chylch cerddorol, fel y dywed Cotterill: '*Grace Williams was unable to maintain a wholly constructive long-term relationship with any of the Welsh musical institutions to which she had ready access during her lifetime*'.³⁷ Er iddi ymddiddori yn y traddodiad gwerin Cymreig, ni chymrodd ran yng ngweithgarwch Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, a bu hyn o bosibl yn rhwystr iddi fel cyfansoddwraig. Yn wir, pe byddai wedi bod yn aelod o'r gymdeithas honno, efallai na fyddai wedi cael cymaint o drafferth wrth geisio cyhoeddi ei threfniannau. Er ei bod mewn cysylltiad â rhai o'r aelodau, megis Enid Parry, byddai ymaelodi â'r Gymdeithas wedi rhoi rhwydwaith ehangach o gysylltiadau iddi yn y maes.

Gwrthododd ymuno â chyfarfod cyntaf yr Urdd er Hyrwyddo Cerddoriaeth Cymru (UHCC) a sefydlwyd yn 1954,³⁸ a oedd o bosibl yn creu'r camargraff nad oedd hi'n barod i gefnogi gweithgarwch cerddorol yng Nghymru. O ddarllen ei llythyrau, mae'n dra thebygol fod personoliaethau ar y bwrdd nad oedd Grace Williams yn rhy hoff ohonynt. Er hyn, bron i ddegawd yn ddiweddarach, derbyniodd gynnig i fod yn un o is-lywyddion y sefydliad yn 1963 ac yn sgil hyn derbyniodd gomisiwn gan yr UHCC i gyfansoddi *Billows of the Sea* ar gyfer llais a phiano.³⁹ Mae lle i gredu y byddai sefydliadau a chymdeithasau wedi bod yn fwy parod i'w chefnogi trwy gynnig gweithiau comisiwn pe byddai wedi bod yn fwy gweledol ar eu pwyllgorau.

Ystyrir Grace Williams ymysg y cyntaf o'i 'math' yng Nghymru, sef cyfansoddwraig a oedd yn adnabod ei hun fel cyfansoddwraig o ran proffesiwn, ac yn cymryd ei gwaith yn gyfan gwbl o ddifrif. Fel y dywed Jones:

The emergence in the 1940s of Grace Williams and Daniel Jones (1912–93) as composers of substance and distinction was a watershed in the history of Welsh art music. Not only were they the first Welsh composers to bring

³⁷ Cotterill, Graeme, 'Music in the Blood and Poetry in the Soul?', Traethawd PhD, Prifysgol Bangor, Bangor, 2012, t. 34.

³⁸ Ibid., t. 25.

³⁹ Ibid., t. 26.

to their craft an unequivocal professionalism; they were the first to secure noteworthy profiles in a UK-wide context.⁴⁰

Torrodd dir newydd wrth fod yn un o'r cyfansoddwragedd cyntaf o Gymru i fynd i Loegr i astudio cerddoriaeth, ac wrth ddilyn gyrfa broffesiynol fel cerddor wedi hynny. Dangosodd y ffordd i nifer o gyfansoddwyr a'i dilynodd. Mae'n anodd lleoli Grace Williams o fewn 'ysgol' o gyfansoddwyr, fel y gwneir heddiw, gan nad oedd y fath 'ysgol' yn bodoli:

[No] such 'school' exists, for the reason that every one of our leading composers is practising a creed that is his or her own: the concept of 'school' can have no validity except in relation to common aims and means. Nor, by subscribing to any set 'ism' or 'ology' can any composer give his work any ultimate meaning or value over and above that which it may already possess.⁴¹

Wrth ystyried ei bywyd personol, roedd yn ddi-briod, ac yn ôl rhai ymchwilwyr roedd yn unig iawn, yn enwedig yn dilyn marwolaeth ei mam yn 1962.⁴² Dywed Malcolm Boyd: '*Her decision to forego the joys and satisfaction of marriage and motherhood and to look for fulfilment as a composer must, one suspects, have cost a great deal.*'⁴³ Cyfeiriodd A. J. Heward Rees at ei hunigrwydd mewn brawddeg sy'n llawn eironi a pharadocs mewn cysylltiad â 'The Parlour': 'merch unig a greodd opera yn llawn o asbri cymdeithasol a chomedï teuluol'.⁴⁴ Disgrifiodd hefyd iddi fyw 'bron fel meudwy',⁴⁵ sy'n cynnig darlun cryf o'i hunigrwydd. Er hyn, mae nifer o lythyrau sydd wedi goroesi o'i heiddo yn awgrymu'n gryf fod gan Grace Williams rwydwaith lythyru gref iawn gydol ei hoes a'i bod yn gwneud defnydd helaeth o'r cyfrwng hwn i ohebu â'i chyfeillion o Gymru (a thu hwnt), gan gadw mewn cysylltiad a thrafod cerddoriaeth a bywyd yn gyffredinol.

Awgryma'r ffactorau hyn nad oedd Grace Williams yn weithgar iawn o fewn y gymdeithas gerddorol a cheir yr argraff ei bod wedi profi cryn unigrwydd wrth fyw 'bywyd tawel ar ei phen ei hun mewn amgylchiadau dirodres'.⁴⁶ Ystyrir ei hunaniaeth yn un annelwig ac anodd ei diffinio. Ond, er ei bod yn unig, llwyddodd i lunio opera sy'n llawn cymeriadau lliwgar ac atyniadol ac mae lle i gredu i'w hunigrwydd fod yn hanfodol i'r broses greadigol.

⁴⁰ Jones, Nicholas (2022), 'Composing Cymru: Art Music since 1940', yn Herbert, Trevor, Clarke, Martin V., a Barlow, Helen (goln), *A History of Welsh Music* (Cambridge: Cambridge University Press), t. 267.

⁴¹ Thomas, A. F. L. (1965), 'The Music of Grace Williams', *The Anglo-Welsh Review*, XV, t. 100.

⁴² Boyd, Malcolm (1980), *Grace Williams: Composers of Wales*, 4 (Cardiff: University of Wales Press), t. 74.

⁴³ Ibid.

⁴⁴ Rees, A. J. Heward (1984), 'A. J. Heward Rees yn ailgloriannu Grace Williams', *Y Faner*, 20 Gorffennaf, t. 13.

⁴⁵ Ibid.

⁴⁶ Ibid.

Grace Williams ac argyfwng hunaniaeth?

Sylweddolodd y seicolegydd Erik Erikson y gall rhwyg rhwng unigolyn a chymdeithas achosi argyfwng hunaniaeth (*identity crisis*).⁴⁷ Wrth bwysu a mesur pa mor wir yw hyn yn achos Grace Williams, a yw elfennau o'i hargyfwng hunaniaeth i'w gweld yn stori'r opera, 'The Parlour'? Yn wir, er mwyn gwneud synnwyr llawn o'r opera hon, mae'n bwysig deall y byd a oedd yn amgylchynu'r gyfansoddwraig.

Mewn llythyr at Enid Parry yn 1949, awgryma Grace Williams fod deuoliaeth yn perthyn i'w harddull gerddorol wrth iddi drafod y syniad o gyfansoddi opera arfaethedig (nas gwirededwyd yn y diwedd) yn seiliedig ar hanes Dic Penderyn. Er mwyn i waith o'r fath lwyddo yng Nghymru, dywedodd: *'my two distinct styles (the one I call my "plebs" style + the other the one that's a bit different) might crop up in the same work + that would be confusing.'*⁴⁸ Awgrymir yma ei bod yn addasu ei harddull gan ddibynnu ar y gynulleidfa er mwyn i'w gwaith lwyddo. Dengys hyn fod y gyfansoddwraig ei hun yn ystyried ei phersonoliaeth gerddorol yn un ranedig – y naill yn un a ystyrir yn 'amrwd' a'r llall i'r gwrthwyneb, sef personoliaeth gerddorol 'aruchel'. Ceir argraff fod y math hwn o 'sgitsoffrenia' gerddorol a'r angen i rannu personoliaeth gerddorol yn ddwy ran yn rhywbeth a oedd yn hollbresennol i gyfansoddwyr benywaidd yn ystod y cyfnod.

Ceir awgrym nad oedd hunaniaeth Grace Williams yn sefydlog iawn yn yr ystyr bod gwahanfurf yn bodoli rhyngddi a chynulleidfaoedd Cymreig. Yn ôl Cotterill: *'To compose a work of greater substance was, in her view, to resign oneself to the realisation that "[f]ew in Wales will grasp it" and risk audience disassociation and even disapproval.'*⁴⁹ Amlygwyd y posibilrwydd ei bod wedi wynebu argyfwng hunaniaeth wrth iddi ddatgan ansicrwydd mawr am ei hunaniaeth yn y 1960au, i'r graddau lle y teimlai ei fod yn ei rhwystro rhag derbyn unrhyw gydnabyddiaeth fel cyfansoddwraig y tu hwnt i Gymru:

Despite having spent more than fifteen years working in London and compiling a list of influential correspondents, Williams believed that she had become pigeon-holed: associated with a region that possessed an identity so powerful that it could prevent her becoming as widely publicised amongst audiences as in high-level performing and composing circles.⁵⁰

I ba raddau y caiff argyfwng hunaniaeth Grace Williams ei adlewyrchu yn 'The Parlour', felly? Mae lle i ystyried pam ei bod wedi osgoi ymdrin ag unrhyw thema Gymreig yn ei

⁴⁷ Beard, D., a Gloag, K. (2016), *Musicology: the Key Concepts* (London and New York: Taylor and Francis Group), t. 133.

⁴⁸ Llythyr oddi wrth Grace Williams at Enid Parry (21 Medi 1949), Archifdy Prifysgol Bangor – Papurau Enid Parry (heb eu catalogio). Gellir diffinio defnydd Williams o'r term 'plebs' fel 'crude or coarse in manner or style' yn ôl geiriadur Merriam-Webster.

⁴⁹ Cotterill, Graeme, 'Music in the Blood and Poetry in the Soul?', Traethawd PhD, Prifysgol Bangor, Bangor, 2012, t. 113.

⁵⁰ Ibid., t. 114.

hunig opera, a bod hyn o ganlyniad i'r argyfwng hunaniaeth. Er nad oes atebion pendant i'r cwestiynau hyn, gellir dechrau trafodaeth. Mae lle i gredu y byddai'r cyhoedd wedi disgwyl iddi ddewis testun mwy Cymreig ar gyfer 'The Parlour', o gofio ei chysylltiad â cherddoriaeth draddodiadol Gymreig yn gynharach yn ei gyrfa. Efallai y byddai mwy o le wedi bod i opera Gymreig o ran thema (ac arddull) ond bod Grace Williams wedi cyrraedd pwynt yn ei gyrfa lle nad oedd yn dymuno ymateb i ddisgwyliadau cyhoeddus. Mae'r ffaith iddi ystyried testunau mwy 'Cymreig', megis Dic Penderyn, yn awgrymu nad oedd hi yn erbyn y syniad o seilio opera ar destun a oedd yn agosach at ei gwlad. Efallai ei bod o dan bwysau gan uwch-swyddogion y WNO ar y pryd i ddewis stori nad oedd yn amlwg Gymreig.

O gofio bod yr opera yn *genre* Ewropeaidd o safbwynt ei gwreiddiau, ac yn wir cafwyd operâu a ragflaenodd 'The Parlour' a oedd yn ymdrin â themâu Cymreig, er enghraifft *Blodwen* (Joseph Parry),⁵¹ *Tir Na Nog* (David de Lloyd) a *The Black Ram* (Ian Parrott), ceir argraff fod Grace Williams eisiau bod yn 'wahanol'. Ffactor arall yw'r ffaith fod opera o ran ei natur yn 'Ewropeaidd' a bod gan y WNO awydd i gael ei weld fel cwmni rhyngwladol yn hytrach nag un rhanbarthol. Amlygir yr ansicrwydd o ran hunaniaeth Grace Williams yn hyn o beth, a'i bod yn syrthio rhwng dau ddiwylliant.

Ar un wedd, gellir edrych ar 'The Parlour' fel math o alegori o'r byd yr oedd Grace Williams ei hun yn rhan ohono. Yn ôl A. F. Leighton Thomas: '*Hidden beneath the omnipresent trappings of comedy – sometimes of a macabre kind – the composer sees, in *En famille*, a current of seriousness and of compassion for the shortcomings of our human race.*'⁵²

'The Parlour': Crynodeb o'r plot

Ar ôl craffu rhywfaint ar elfennau o bersonoliaeth Grace Williams ynghyd â'i hunaniaeth, trafodir yma i ba raddau y mae'r opera hon yn ymgorfforiad o'r byd yr oedd y gyfansoddwraig yn byw ynddo. Mae arwyddocâd yn y ffaith bod Grace Williams ei hun wedi ysgrifennu'r *libreto* ar gyfer yr opera, sy'n awgrymu ei bod wedi mynd ati i addasu stori wreiddiol Maupassant er mwyn adlewyrchu ei hamgylchiadau hi ei hun. Mae'r newidiadau a wnaed ganddi yn rhai pwrpasol er mwyn sicrhau bod yr opera'n berthnasol i gynulleidfaoedd o Gymru a Lloegr yn hytrach na Ffrainc.

Hanes teulu Fictoraidd sy'n byw mewn tref glan môr oddeutu 1870 yw 'The Parlour'. Swydd Papa yw gweithio yn y Swyddfa Fordwyo (*Navigation Office*) ond nid yw'n fawr o swydd. Mae Mama'n gynnil â'i harian ac mae ganddynt ddau o blant, Louisa ac Augusta, sy'n llond llaw. Mae Grandmama (mam Papa), sy'n fwy na llond llaw, hefyd yn byw gyda'r teulu yn y tŷ. Ai haen gymdeithasol o dref y Barri sydd yma, felly? Mae'r ffaith fod y stori wedi ei lleoli mewn 'tref glan môr' yn awgrymu hynny.

Wrth i'r llen godi, mae Grandmama'n gweiddi'n flin ar gymdogion y stryd drwy ffenestr agored. Cura Mama y gong i ddynodi ei bod yn amser bwyta. Ond ble mae Grandmama? Caiff Louisa ei hanfon i fyni'r grisiau i ymchwilio cyn dychwelyd gan ddweud: '*Grandmama's lying flat on the floor*'. Fe ymddengys ei bod wedi marw'n ddisymwth. Rhuthra Papa i

⁵¹ *Blodwen* (1878) oedd yr opera gyntaf yn y Gymraeg.

⁵² Thomas, A. F. L. (1965), 'The Music of Grace Williams', *The Anglo-Welsh Review*, XV, 99.

fyny'r grisiau gan weiddi ar Rosalie (y forwyn) i nôl eu meddyg teulu, Doctor Charlton, ar frys. Rhuthra Mama i fyny'r grisiau gan adael y merched ar eu pen eu hunain, yn meddwl bod y sefyllfa'n od. Pwy all ddatrys y dirgelwch? Doctor Charlton a'i hanes amheus?

Cyrhaedda Doctor Charlton gan brofocio'r merched a rhedeg i weld y claf gan chwibanu. Mae'n archwilio'r sefyllfa'n frysiog a diofal cyn dod i'r casgliad 'awdurdodol' bod Grandmama wedi marw. Gwelwn Mama wedi'i syfrdanu a Papa mewn sioc. Mae Doctor Charlton yn ffigwr o awdurdod, felly, ond caiff ei bortreadu fel meddyg sydd yn ddi-glem a diamcan. Mae'n ffigwr hunanbwysig ac mae'n anodd ei gymryd o ddifrif. Tybed a oedd hi'n dychan ambell ffigwr pwysig a dylanwadol o fewn byd cerddorol Cymru'r cyfnod, megis rhai o'r cyfansoddwyr a oedd ar bwyllgorau'r UHCC neu'r BBC?

Wedi i'r doctor adael ac wedi i'r plant fynd i swyddfa'r post, gofynna Mama: '*Tell me, did your mother make a will?*' Nid yw Papa'n siŵr ac mae'n holi pam mae ei wraig yn holi am hyn. Caiff ei atgoffa gan Mama ei bod wedi llafurio am ddeng mlynedd a bellach bydd ei chwaer segur (Aunt Genevieve, sef chwaer Papa) yn etifeddu hanner y dodrefn. Bydd yn rhaid iddynt weithredu'n gyflym a chyfnewid eu heiddo anniben am drysorau Grandmama. Wedi'r cyfan, oni wnaeth hi addo'r rhain iddo? Nid yw Papa'n cofio; mae'n ildio ac yn cychwyn dios eu heiddo ac aildrefnu'r ystafell.

Gwelir y cymdogion yn ymgynnull y tu allan i'r tŷ wrth i'r newyddion ledaenu ynglŷn â Grandmama. Caiff y merched eu hanfon i fyny'r grisiau i ystafell Grandmama i nôl canhwyllau. Maent yno am amser maith a phan ddônt i lawr, gwelir eu bod yn sefyll yn stond mewn dychryn. Yn y diwedd, maent yn llwyddo i ddatgan: '*Grandmama's getting up, she's dressing and she's coming downstairs*'. Ar ôl clywed hyn, mae Mama'n dioddef cyfres o lewygon. Caiff ei dadebru mewn pryd i gyfarch Grandmama, sy'n dweud dim ond yn gweld popeth.

Cana cloch y drws. Aunt Genevieve ac Uncle Steve sydd yno. Pan ddaw Genevieve dros y sioc, mae'n cofleidio Grandmama gan ddweud wrthi mai cariad ei merch sydd ei angen arni. Ymddengys Doctor Charlton eto gyda'r ymgymwrwr y tu ôl iddo. Am ennyd, mae ar goll, cyn rhoi'r arwydd i'r ymgymwrwr fynd. Mae'n mesur curiad calon Grandmama ac yn datgan ei bod yn berffaith iach. Nid yw Grandmama'n hapus ac mae'n gofyn i Genevieve fynd â hi i'w hystafell wely er mwyn iddi gael gwneud ei hewyllys.

Mae Mama druan yn gorfod paratoi swper i bawb. Aiff â hambwrdd i fyny'r grisiau, ond ymhen dim o amser, mae'n rhedeg i lawr gan sgrechian gyda Genevieve ar ei hôl. Ceir dadl ffyrnig ac mae pawb yn ymuno ynddi. Caiff Papa a Mama eu cyhuddo o ddwyn cyn iddynt fygwth ffonio'r heddlu os na fyddai pawb arall yn gadael y tŷ. Yng nghanol hyn i gyd, rhuthra'r cymdogion i mewn. Bu'r merched allan yn dweud wrthynt beth ddigwyddodd ac ni allent gredu. Maent yn dychryn wrth weld Grandmama. Dywed Grandmama nos da wrth Genevieve a Steve – sy'n derbyn hyn gan wybod bod Grandmama am adael popeth iddynt – ac wrth fynd i'w gwely mae'n rhoi gorchymyn i Mama a Papa ddychwelyd ei holl drysorau ar unwaith. Mae Mama'n hollol ddiymadferth. Mae Papa'n ei chysuro gan ddweud nad yw'r pethau hyn o bwys. Yna'n sydyn, mae'n cofio rhywbeth *sydd* o bwys. Sut y gall esbonio ei absenoldeb o'i waith oherwydd digwyddiadau'r diwrnod i'r uwch-arolygydd?

Yr hyn sy'n amlwg ar lefel wrthrychol yn yr opera yw bod yr holl gymeriadau yn cyffwrdd pob haen o gymdeithas. Yn y stori a'r opera, cynrychiolir y dosbarth cymdeithasol is gan y forwyn sy'n cael ei cham-drin yn eiriol, cynrychiolir y dosbarth canol gan y gweithwyr cyffredin a chynrychiolir y wraig ffroenuchel a'r dosbarth uwch gan y meddyg. Yn eironig iawn, y meddyg yw'r unig ŵr sy'n derbyn parch gan gymeriadau eraill wrth iddo gael pryd o fwyd fel math o dâl am ei waith yn ymweld â Grandmama.

Thema ddadlennol yng ngweithiau Maupassant yw gwagedd a'r ffyrdd y caiff gwagedd eu portreadu. Yn y stori a'r opera, ceir awgrym mai rhywun neu ryweth i'w berchnogi yw gwraig, ond ceir portread o wraig ormesol ac awgrym mai'r wraig yw'r catalydd ym mhob agwedd ar fywyd. Gwelir mai Mama sy'n penderfynu ar bopeth oherwydd bod Papa yn ymddwyn yn annigonol. Mae arwyddocâd yn y ffaith mai gwraig (Grandmama) sydd yn marw yn y stori, a gwraig arall (Mama) sy'n gwneud y penderfyniad i symud y dodrefn. Mae hyn yn arwyddocaol o gofio bod Grace Williams yn ffeminist ac yn gadarn ei hegwyddorion wrth ymwneud â dynion.

Thema arall a welir yw gwarth cymdeithasol. Adlewyrchir bywyd undonog ac anfodlonrwydd cyffredinol Papa oherwydd ei batrwm dyddiol a diflas o weithio yn y Swyddfa Fordwo. Gellir gofyn ai unig reswm y teulu dros symud Grandmama i'r tŷ a goddef ei chael i fyny'r grisiau yw er mwyn etifeddu. Yn ogystal, caiff hunanoldeb ei bortreadu wrth i Papa ac Aunt Genevive ddadlau dros yr etifeddiaeth.

Gellir awgrymu'n gryf yma fod y tebygrwydd rhwng 'En Famille' a 'The Parlour' yn ymestyn y tu hwnt i'r gweithiau eu hunain, i'r graddau lle y gwelir cysylltiad rhwng Grace Williams a Maupassant yn y ffaith bod y ddau yn bobl greadigol a chynhyrchiol ond sydd eto'n teimlo'n unig.⁵³ Dioddefodd Maupassant salwch difrifol a olygodd mai dim ond deuddeg mlynedd oedd hyd ei yrfa broffesiynol fel awdur.⁵⁴ Gellir dod i'r casgliad bod ei storïau yn adlewyrchiad o brofiadau personol. Fel y dywed Christopher Lloyd: '*His ultimate mental and physical degradation and disintegration inevitably invite comparisons with the obsessive recurrence of such themes throughout his writing*'.⁵⁵ Gellir gofyn a oedd Maupassant a Grace Williams o ganlyniad i'w hunigrwydd wedi eu dadrithio â'r byd o'u cwmmpas, a bod hynny wedi ei denu at y stori fer. Yn sicr, ceir tebygrwydd i operâu eraill o'r un cyfnod sy'n trafod cymdeithas ddiegwyddor a rhyfygus, megis *Peter Grimes* gan Benjamin Britten.

⁵³ Lloyd, C. (2020), *Guy de Maupassant* (London: Reaktion Books) t. 8. Roedd Maupassant, fel Grace Williams, yn ddi-brïod.

⁵⁴ Ibid. Effeithwyd ar Maupassant gan sgil-ffeithiau sifflis: salwch cronig, ymgais i ladd ei hun, gorffwylledd, parlys a marwolaeth ar ôl bod yn gaeth mewn clinig am ddeunaw mis.

⁵⁵ Lloyd, C. (2020), *Guy de Maupassant* (London: Reaktion Books), t. 8.

Casgliadau

Ar ôl pwyso a mesur effaith hunaniaeth ar waith y cyfansoddwr (nas ystyriwyd i'r un graddau o'r blaen), gellir deall ei cherddoriaeth yn well, a gweld pam y penderfynodd fynd ati i droi ei llaw at drefniannau gwerin ac opera fel ei gilydd. Gellir gweld y trefniannau gwerin niferus ac unig opera Grace Williams fel ymdrech i geisio symud o'r ymylon i'r 'canol', er mwyn sicrhau bod y gweithiau hynny'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi fel rhai sy'n deilwng o sylw beirniadol yn yr un modd â gweithiau megis y *Fantasia* a *Penillion*.

Gellir honni bod Grace Williams wedi gweithredu ar dair lefel yn ystod ei gyrfa: 1) llunio trefniannau o alawon gwerin Cymreig, 2) ysgrifennu gweithiau sy'n seiliedig ar ffurfiau ac arddulliau Cymreig (er enghraifft *Penillion*) a 3) gweithiau nad ydynt yn cynnwys alawon gwerin Cymreig. Mae cydnabod pa mor eang fu allbwn Grace Williams fel cyfansoddwraig yn hynod bwysig er mwyn dangos ei bod yn gerddor cyflawn gyda sawl pluen yn ei het. Golyga hyn fod adfywio'r gweithiau o'i hallbwn sydd fwyaf anghyfarwydd yn hynod bwysig.

Er mor bwysig yw cydnabod unigrwydd Grace Williams a pha mor annelwig oedd ei hunaniaeth, ni ddylid edrych ar hyn fel rhywbeth negyddol a gafodd effaith andwyol arni. Yn wir, cafodd fagwraeth gerddorol eang a gyfoethogodd ei bywyd i raddau helaeth. Trwy astudio yng Nghaerdydd a mentro'n ddiweddarach y tu hwnt i Gymru i Lundain a Fienna, gwnaeth yn fawr o'r cyfleoedd a ddaeth i'w rhan er mwyn cyfoethogi ei bywyd cerddorol ymhellach. Llenwodd gerddoriaeth ei bywyd gydol ei hoes ac roedd yn arf arbennig iddi ddelio â'r heriau a'i hwynebodd. Mater pwysig arall yw dod â Grace Williams i'r 'canol' o safbwynt ei chyfraniad i gerddoriaeth Cymru gan ddangos ei bod yn llawer mwy canolog nag oedd pobl yn barod i'w gydnabod tan yn ddiweddar.⁵⁶

⁵⁶ Er mwyn ceisio diogelu'r gweithiau pwysig hyn ac yn sgil derbyn cefnogaeth un o Grantiau Bach y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, llwyddwyd i gydweithio â Chwmni Cyhoeddi Curiad (Penygroes) i roi bywyd newydd i'w threfniannau o alawon gwerin a olygodd i rai o'r trefniannau weld golau dydd am y tro cyntaf yn 2023. Y trefniannau dan sylw yw *Welsh Aires* (cyfrol o ddeg o alawon i leisiau soprano, tenor a bariton i gyfeiliant dwy delyn), *Cariad Cyntaf* (i lais bariton, piano a rhan fiola ddewisol) a *Hiraeth* (i lais a phiano neu delyn). Gellir clywed perfformiadau o'r gweithiau hyn a berfformiwyd mewn cyngerdd, a oedd yn cynnwys trefniannau o alawon gwerin gan Grace Williams, ar Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Dywedodd y delynores Angharad Wyn Jones, un o berfformwyr y cyngerdd: 'Roedd cael chwarae cyfeiliannau'r *Welsh Aires* yn brofiad bendigedig. Maent wedi eu trefnu yn hyfryd i'r delyn. Popeth yn addas. Braf yw gallu chwarae gwaith sydd yn dod yn rhwydd i'w chwarae o'i gymharu â gweithiau megis *Ceremony of Carols* gan Benjamin Britten, neu weithiau gan Gareth Glyn neu William Mathias!'. Yn ogystal, mae ymchwil i opera Grace Williams yn parhau o dan nawdd un o Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.